Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

COFNODION CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)

Yn bresennol

Y Cynghorydd Marc Tierney (Cadeirydd)	Aelod Cabinet dros Bobl Ifanc, Cymuned, Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Sir Penfro
Jessica Bickerton	Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (ymadawodd am 12.03pm)
Iwan Thomas	Prif Weithredwr, PLANED
Tom Moses	Un Llais Cymru
Claire Germain	Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru
Anna Mullarkey	Porthladd Aberdaugleddau (ymadawodd am 12.04pm)
Huwel Manley	Pennaeth Gweithrediadau, De-orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru
Caroline James	Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro (ymadawodd am 12.03pm)
Mydrian Harries	Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Michael Gray	Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro (ymadawodd am 12.03pm)
Katie Spendiff	Is-adran Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru
Ardiana Gjini	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Will Bramble	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro (10.16am – 12.05pm)
Sarah Isaac	Arweinydd Clinigol Rheoli Meddyginiaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (ymadawodd am 11.06am)
Linda Jones	Rheolwr Rhaglenni'r Bartneriaeth Ranbarthol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (10.51am – 12.04pm)
Alison Perry	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (cyrhaeddodd am10.52am)

Yn bresennol ar gyfer Eitem 7

Derek Walker	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (cyrhaeddodd am 11.06am) (gadawodd am 12.03pm)

Cymorth/ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards	Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Rachael Rimmer	Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro
Amy Richmond Jones	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ymddiheuriadau

Barry Walters	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Phil Kloer	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Uwch-arolygydd Dros Dro Louise Harries	Heddlu Dyfed-Powys

Dechreuodd y cyfarfod am 10.01am

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd MT bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

Nododd MT mai dyma fyddai'r tro olaf i IT fynychu cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) cyn symud ymlaen i rôl newydd. Diolchodd i IT am ei holl gyfraniad i'r BGC dros y blynyddoedd.

Aildrefnwyd agenda'r cyfarfod gan fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyrraedd yn hwyrach.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / cofnod y camau gweithredu

Cofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir, gyda chais am y gwelliannau canlynol:

- O dan Eitem 4, nodwyd yn anghywir bod beiciwr gwaed a gollodd ei fywyd wedi cael gwobr yng Ngwobrau Gwirfoddoli Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Dylai ddarllen fel hyn: *"cofiwyd bod beiciwr gwaed wedi colli ei fywyd"*. Ychwanegodd JB fod beiciwr gwaed arall wedi colli ei fywyd dros gyfnod y Nadolig yn anffodus.
- Ar dudalen 8, gofynnodd AG am ddiweddaru geiriad yr ail bwynt bwled o dan flaenlythrennau BB i:

  "Cefnogir gwirfoddoli ar draws y bwrdd iechyd trwy wasanaethau presennol. Archwiliwyd cynllun gwirfoddoli gyda chefnogaeth cyflogwyr ond nid yw wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae'r bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar greu amgylchedd cefnogol ac yn hyrwyddo gwirfoddoli'n weithredol yn ehangach."

Roedd yr holl gamau gweithredu oedd yn weddill o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cwblhau.

3. Cynllunio'r broses asesu llesiant yn 2026–27

Rhoddodd LR yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses asesu llesiant a fydd yn digwydd drwy gydol 2026 a 2027:

- Dyma fydd y trydydd asesiad llesiant i'w gynnal gan y BGC.
- Mynychwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda chydweithwyr o Geredigion, Sir Gaerfyrddin a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn dilyn eu penderfyniad i uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn datblygu asesiad llesiant ar y cyd. Nid yw'n glir eto sut y bydd Sir Benfro yn cysylltu'n rhanbarthol yn ystod datblygiad ein hasesiad llesiant, ond bydd cydweithwyr yn parhau i drafod sut i gydweithio'n rhanbarthol.
- Cafodd yr asesiad llesiant diwethaf ei baratoi a'i ddrafftio'n bennaf gan Gyngor Sir Penfro a'i rannu â phartneriaid i gael adborth ar adrannau perthnasol. Nid oes gan Gyngor Sir Penfro yr adnoddau mwyach i ymgymryd â'r broses hon ar ei ben ei hun. Ar gyfer yr asesiad llesiant newydd, mae angen i bartneriaid gyfranogi mwy i gasglu

gwybodaeth ac arbenigedd pwysig ynghyd. Gofynnir i bartneriaid helpu i ddatblygu adrannau o'r asesiad llesiant sy'n gysylltiedig â'u meysydd gwasanaeth. Gofynnir i is-grwpiau'r BGC hefyd helpu i lunio data cyfredol a darparu dadansoddiad.

- Mae'r amser a bennir ar gyfer datblygu'r asesiad llesiant yn dynn oherwydd etholiadau gefn wrth gefn yn 2026 (ar gyfer Senedd Cymru) a 2027 (ar gyfer awdurdodau lleol). Bydd yr asesiad llesiant yn gofyn am gyfnod ymgynghori statudol o 14 wythnos. Rhennir yr union ddyddiadau gyda phartneriaid pan fyddant wedi'u cwblhau.

Nododd IT fod yr asesiad llesiant yn hanfodol wrth bennu bwriad a thrywydd y BGC. Bydd hefyd yn sefydlu sut i gyfathrebu ac ymgorffori gweithgarwch sylfaenol mewn sefydliadau mawr a bach ledled y sir. Ychwanegodd fod sefydliadau cymunedol a'r trydydd sector dan bwysau arbennig o ran capasiti. Bydd angen i'r BGC wthio'r asesiad llesiant newydd drwy sefydliadau rheng flaen sy'n gweithio gyda'r cyhoedd a'r gymuned leol ar faterion sy'n ymwneud â diogelu a llesiant. Cytunodd MT, gan nodi bod yr asesiad llesiant yn gyfrifoldeb i bawb ac y bydd cydweithio ledled y sir yn cyflawni canlyniadau gwell.

Tynnodd TJ sylw at y ffaith bod angen i Sir Benfro ystyried goblygiadau uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ac ystyried effaith hynny ar y BGC lleol. Mae pryderon y bydd Sir Benfro yn cael ei gweld fel partner llai cyfartal o fewn y rhanbarth unwaith y bydd yr uno'n digwydd. O ran datblygu'r asesiad llesiant, awgrymodd TJ y gallai grŵp o bartneriaid ddod ynghyd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ba ddata sydd ar gael i'w ddefnyddio yn Sir Benfro. Gallai hyn gynnwys partneriaid y BGC ledled y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus ehangach fel Data Cymru (sydd bellach wedi'i integreiddio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Nododd TJ hefyd fod y BGC wedi cytuno ar un adeg i ddefnyddio system Gorwel o gasglu data, a holodd a yw'r broses hon yn dal i fynd rhagddi. Cadarnhaodd LR nad ydoedd. Cytunodd MT fod angen casglu tystiolaeth a data i lywio'r asesiad llesiant. Bydd hyn yn helpu i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y gymuned leol, a all amrywio dros amser. Mae llifogydd yn debygol o fod yn fater amlwg yn yr asesiad llesiant sydd ar ddod, er enghraifft.

Nododd CG fod y asesiad llesiant yn hanfodol wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer y BGC a chyrff cyhoeddus yn yr ardal leol. Awgrymodd y dylai'r BGC ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiadau sydd eisoes yn bodoli, megis gweithgarwch yn ymwneud â phrofiadau bywyd, yn ogystal â chasglu data newydd. Nododd CG y bydd angen cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol ar y asesiad llesiant, gan ymgysylltu â chymunedau ac ystyried sylwadau pobl leol. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r BGC i nodi ble bydd ei waith yn cael yr effaith a'r gwerth mwyaf.

Rhannodd KS fod ei thîm wedi bod yn gweithio gyda chydlynwyr y BGC i benderfynu pa gyngor y gellir ei ddarparu ar yr asesiad llesiant ar lefel genedlaethol. Mae'r tîm yn awyddus i asesiadau llesiant ac asesiadau o anghenion y boblogaeth fod yn effeithiol ac yn gymesur ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Grŵp Cynghori ar Asesiadau Cenedlaethol wedi'i ddatblygu fel rhan o ymdrech ar y cyd i roi cyngor defnyddiol a chymesur. Bydd y grŵp yn cynnwys partneriaid fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Data Cymru (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae sesiynau chwarterol y grŵp yn cael eu trefnu ar hyn o bryd, ac mae cyfle i aelodau'r BGC fynychu ac ymgysylltu â'r sesiynau hyn. Rhannodd KS hefyd fod gweinidogion y llywodraeth wedi cymeradwyo datblygu canllawiau anstatudol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ddiweddar. Bydd hyn yn egluro rôl y gwahanol bartneriaethau ac yn cynghori ar sut y gallant ymgysylltu a rhannu data. Holodd LR a fyddai Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar gael mewn pryd ar gyfer y asesiad llesiant. Cadarnhaodd KS y byddai'r ddogfen lawn yn cael ei chyhoeddi'n agos at y cyfnod ymgynghori, ond na fyddai ar gael mewn pryd iddi gael ei hystyried wrth ysgrifennu'r asesiad llesiant. Mae KS yn gweithio gyda Swyddog Tueddiadau'r Dyfodol i

ddatblygu sleidiau a gwybodaeth y gellir eu dosbarthu i bartneriaid mewn pryd i'w cynnwys mewn asesiadau llesiant drafft, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau a fydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Mynegodd AG fod angen llunio'r asesiad llesiant yng nghyd-destun y model cymdeithasol ar gyfer iechyd. Mae partneriaid ledled y rhanbarth eisoes wedi ymrwymo i'r egwyddorion hyn, a dylai'r asesiad llesiant adlewyrchu hynny. Os caiff ei lunio'n amhriodol, mae'n debygol y bydd ymateb y gymuned yn ystod yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad yn gul iawn ac yn canolbwyntio ar wasanaethau yn unig. Ychwanegodd y bydd angen i'r BGC weithio gyda'r gymuned leol i ddod o hyd i atebion i'w hanghenion llesiant. Cytunodd TJ y dylai'r asesiad llesiant gyd-fynd â model cymdeithasol iechyd, gan nodi bod y model hwn hefyd yn gweithio'n dda ym maes hinsawdd a natur.

Tynnodd AG sylw at bwysigrwydd casglu'r data mwyaf cynhwysfawr posibl. Mae angen trafodaethau ynghylch pa ffynonellau data nad yw'r BGC wedi'u defnyddio yn y gorffennol a sut y gellir dehongli a defnyddio hyn ar gyfer yr asesiad llesiant newydd. Ychwanegodd y dylai cydweithwyr ystyried sut i symleiddio a syntheseiddio gwybodaeth o gynlluniau a strategaethau ledled y rhanbarth (megis asesiadau o anghenion y boblogaeth ac asesiadau llesiant) er mwyn datblygu ffordd strategol o weithio ar y cyd ar faterion cyffredin. Nododd AG hefyd fod y bwrdd iechyd wedi gwneud rhai rhagamcanion yn ddiweddar y gellir eu rhannu gyda phartneriaid, ar gyffredinrwydd clefydau.

Tynnodd HM sylw at y ffaith nad oes llawer o adborth i asesiadau llesiant fel arfer yn ystod y broses ymgynghori. Mae angen i'r BGC sicrhau ei fod yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid cywir ac yn gwneud y ddogfen yn fwy deniadol er mwyn annog y boblogaeth ehangach i ymateb. Cytunodd y gellid ffurfio grŵp i edrych ar ddata Sir Benfro, ond y dylai'r BGC hefyd gydweithio â Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wrth gasglu data. Awgrymodd HM hefyd y gallai partneriaid sefydlu ble mae'r tebygrwydd ar draws y rhanbarth a beth yw'r prif bethau i'w cyflawni y gellir eu rhannu. Fodd bynnag, cydnabu fod Sir Benfro yn unigryw, ac y bydd angen i ganlyniadau a chamau gweithredu'r asesiad llesiant fod yn ystyrlon i boblogaeth Sir Benfro. Nododd WB fod bod ar 'ben eithaf y wlad' yn golygu bod gan Sir Benfro broblemau arbennig, fel llygredd nitradau, sy'n fwy cyffredin nag mewn mannau eraill yn y wlad. Ychwanegodd fod angen i'r BGC sicrhau nad yw'n gwanhau'r pwyslais lleol drwy ehangu cwmpas yr asesiad llesiant. Eglurodd LR y bydd angen i'r data yn yr asesiad llesiant fod yn lleol i Sir Benfro, er bod partneriaid rhanbarthol wedi ymrwymo i gydweithio ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu strategol ar y cyd. Mae'r ddeddfwriaeth yn glir bod yn rhaid i BGCau gynnal asesiad o lesiant *lleol*.

Awgrymodd TM y gellid defnyddio cynghorau tref a chymuned i ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau ynglŷn â'r asesiad llesiant. Gallai'r BGC hefyd gysylltu â grwpiau cymunedol a'r Rhwydwaith Ymgysylltu a Chydgynhyrchu yn Sir Benfro. Nododd fod angen cynllunio sesiynau ymgysylltu cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y gall partneriaid fanteisio i'r eithaf ar y gwahanol sianeli sydd ar gael i ymgysylltu â'r gymuned leol. Cytunodd MT y byddai cynllunio'n gynnar yn ddefnyddiol i sicrhau nad yw gwaith yn mynd yn ofer yn ystod y paratoi ar gyfer yr etholiad ym mis Mai. Ychwanegodd LR fod grŵp ymgysylltu wedi'i ffurfio ar gyfer yr asesiad llesiant diwethaf, ochr yn ochr â phecyn cymorth a ddatblygwyd i bartneriaid ei gymryd yn ôl at eu grwpiau, a'i ddefnyddio i ymgysylltu â chymunedau. Gellid gofyn i gynghorwyr ymgysylltu â'u hetholwyr i benderfynu ar y prif bryderon o ran llesiant yn yr ardal leol. Gall y BGC hefyd ymgysylltu â'i is-grwpiau i sicrhau bod gwaith ynghylch profiadau bywyd a chysylltwyr cymunedol wedi'i gynnwys yn yr asesiad llesiant.

Cytunwyd bod y BGC yn hapus i fwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer amserlenni'r WBA, a amlinellir ym mhecyn yr agenda ac i ddarparu cefnogaeth lle bo angen wrth gwblhau'r

asesiad. Gofynnodd MT am ychwanegu ailffurfio'r Grŵp Ymgysylltu at yr amserlen a amlinellwyd yn atodiad yr adroddiad.

4. Cynllun Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda

Mae Cam 2 yr ymgysylltiad ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda bellach wedi dod i ben. Esboniodd SI y byddai cyfarfod eithriadol o'r bwrdd yn cael ei gynnal ar 18 a 19 Chwefror 2026 i ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad, yr opsiynau sydd ar gael, a sut y bydd yr opsiynau'n effeithio ar gymunedau. Bydd yr opsiynau'n cael eu hasesu ar bwyntiau megis cynaliadwyedd clinigol, aliniad strategol, cyflawnadwyedd, a chynaliadwyedd ariannol. Gellir gwneud rhai penderfyniadau fel rhai 'dros dro' neu eu cyflwyno fesul cam os oes angen mwy o wybodaeth. Mae gwybodaeth am y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a phapurau ar gyfer y cyfarfod eithriadol ar gael ar wefan Hywel Dda.

Diolchodd AG i'r partneriaid am ymgysylltu a chyfrannu yn ystod y broses ymgynghori. Un thema sydd wedi dod i'r amlwg ymhlith pob un o'r naw maes gwasanaeth yw problemau teithio a thrafnidiaeth. Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus y gorau y gallai fod ar draws y rhanbarth ac mae'n bosib bod rhai gwasanaethau y mae angen eu canoli wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd. Bydd angen cymorth gan y BGC i ystyried sut i fynd i'r afael â'r materion hyn a sut i gael mynediad at gymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae gweithdai yn cael eu trefnu i bartneriaid yn y dyfodol i edrych ar sut i ddeall a mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth o fewn y boblogaeth leol. Dywedodd AG fod hwn yn fater y gall partneriaid ehangach ar draws y rhanbarth a Chymru gyfan ddylanwadu arno. Cytunodd MT y dylai'r BGC fod yn defnyddio ei adnoddau cyfunol i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gofynnodd TJ a oedd Hywel Dda wedi bod yn ymwneud â datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a oedd wedi cael sêl bendith y cyd-bwyllgor corfforedig yn ddiweddar. Eglurodd SI nad oedd ei thîm wedi bod yn rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ond y byddai'n gwirio gydag unigolion mewn rhannau eraill o'r sefydliad i weld a oeddynt wedi cymryd rhan yn ei ddatblygiad.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Gwirio gyda chydweithwyr yn y bwrdd iechyd i weld a ydyn nhw wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (SI/AG)

Dywedodd JB fod nifer o faterion emosiynol a phersonol yn cael eu hystyried yn y cynllun a fyddai â goblygiadau ac effeithiau lleol. Gallai fod yn anodd i aelodau'r cyhoedd ymgysylltu â'r prosesau hyn oherwydd sensitifrwydd y materion, yn ogystal â'r ffaith fod nifer uchel o ymgynghoriadau yn fyw ar draws gwahanol gyrff cyhoeddus, gan achosi 'diflastod ar ymgynghori'. Tynnodd JB sylw at y ffaith y gellir defnyddio'r BGC i gyfleu casgliadau i'r cyhoedd a helpu pobl leol i wneud synnwyr o'r materion dan sylw. Cadarnhaodd AG fod rhagor na 5,000 o ymatebion wedi bod i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, a 300 o gynigion neu syniadau amgen wedi'u hawgrymu.

Nododd IT ei fod yn aelod o'r bwrdd ac y byddai'n rhan o'r drafodaeth ddwys yn y cyfarfod eithriadol. Esboniodd fod y broses ymgynghori ar y cynllun wedi bod yn sylweddol, a'i bod wedi defnyddio data ansoddol a meintiol gan grwpiau rhanddeiliaid a chymunedau. Cynhaliwyd sgyrsiau emosiynol hefyd gyda chleifion, cleientiaid a meddygon rheng flaen i gael eu barn ar yr opsiynau arfaethedig. Bydd ymgysylltu a thrafodaethau'n parhau ar ôl y cyfarfod eithriadol i sicrhau bod gan y BGC rôl a'i fod yn rhan o'r naratif. Nododd IT y bydd ystyriaeth i ddulliau pwrpasol ar gyfer cymunedau fel rhai Sir Benfro oherwydd eu natur wledig. Ni ellid gwneud unrhyw benderfyniadau pellach nes bod y cynigion wedi cael eu hystyried yn y cyfarfod eithriadol.

5. Diweddariadau ar brosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (er gwybodaeth yn unig)

Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf am y tair ffrwd prosiect wedi'i chynnwys ym mhecyn yr agenda. Pwysleisiodd MT fod angen i waith barhau o dan y prosiectau hyn drwy gydol datblygiad yr asesiad llesiant er mwyn sicrhau nad yw'r BGC yn colli pwyslais.

a). Natur / Newid Hinsawdd / Datgarboneiddio

Cynhaliwyd cyfarfod o'r is-grŵp Casglu Data Cenedlaethol yn ddiweddar ac roedd presenoldeb da ar y cyfan. Gofynnodd TJ i unrhyw bartneriaid nad ydynt eisoes wedi anfon yr wybodaeth ddiweddaraf ar eu hasesiad risg carbon i wneud hynny erbyn diwedd yr wythnos. Bydd TJ yn casglu ac yn rhannu'r wybodaeth hon pan fydd y diweddariadau i gyd wedi dod i law.

b). Cryfhau Cymunedau

Bydd JB a chydweithwyr o'r is-grŵp Cryfhau Cymunedau yn cynnal arolwg sylfaenol yn fuan ynghylch gwirfoddoli, i gasglu barn o bob rhan o'r BGC. Gofynnodd JB i gynifer o bartneriaid â phosibl lenwi hwn, gan y bydd hyn yn dangos bylchau y mae angen eu llenwi a chyfleoedd y gellir eu datblygu mewn perthynas â gwirfoddoli.

c). Tlodi

Gan nad oedd cynrychiolydd o'r is-grŵp ar dlodi yn bresennol, ni ellid rhoi diweddariad ar lafar.

6. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 – Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Rhoddodd DW gyflwyniad ar sut mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gyflawni, a sut mae ymateb BGC Sir Benfro yn cymharu â'r sector cyhoeddus ehangach:

- Daethpwyd i'r casgliad bod gweithredu cadarnhaol wedi digwydd ledled Cymru o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid wedi cefnogi'r strategaeth yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r wlad yn cyrraedd ei thargedau hirdymor ar hyn o bryd. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gwneud nifer o argymhellion o ganlyniad – rhai yn ymwneud yn benodol â BGCau:
    - Rhaid i wydnwch a medru addasu yn wyneb newid hinsawdd fod yn flaenoriaeth graidd i wasanaethau cyhoeddus.
    - Dylai cyrff cyhoeddus a BGCau ddefnyddio'r asesiad llesiant a'r asesiad o anghenion y boblogaeth i nodi'r anghydraddoldebau mwyaf arwyddocaol yn eu poblogaethau, a datblygu cynlluniau wedi'u targedu.
    - Dylai pob corff cyhoeddus a BGC ymrwymo i Siarter Creu Lleoedd Cymru.
    - Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu cynllun gwydnwch bwyd lleol mewn cydweithrediad â phartneriaethau bwyd lleol a BGCau.
- Derbyniwyd ymatebion gan BGCau, yn ogystal â sefydliadau unigol a chyrff cyhoeddus:
    - 21 o awdurdodau lleol
    - chwe bwrdd iechyd
    - 13 corff cenedlaethol
    - dau wasanaeth tân ac achub
    - dau gyd-bwyllgor corfforedig
    - dau barc cenedlaethol

- Roedd yr ymatebion mwyaf cadarnhaol (a fabwysiadwyd a'u derbyn) gan gyrff cyhoeddus yn gysylltiedig â'r canlynol:
    - Cael cynllun i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg.
    - Cefnogi staff corfforaethol i gael dealltwriaeth dda o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
    - Creu gweledigaeth hirdymor a chynllun sefydliadol wedi'u cydlunio.
    - Bod atal yn amcan strategol craidd mewn cynllunio corfforaethol.
    - Cael achrediad cyflog byw gwirioneddol erbyn 2027 – roedd mwy na 90% o gyrff cyhoeddus yn derbyn yr egwyddor hon.
- Roedd nifer fach iawn yn ymwrthod ag agweddau, er bod pryderon ynghylch cyllid a bod â digon o adnoddau i ariannu'r argymhellion.
- Mae 'gweithredu ac effaith' yn genadaethau craidd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac maent yn canolbwyntio ar hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
    - Ni wnaeth BGC Sir Benfro ymateb i'r argymhellion ynghylch gweithredu ac effaith. Anogodd DW y BGC i edrych ar hyn eto.
    - Byddai Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dadansoddi ymatebion i nodi rhwystrau i'r genhadaeth hon ac yn ystyried pwy y gallant weithio gyda nhw i symud hyn ymlaen. Nid Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn unig ddylai fod yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus.
- Roedd ymateb cwbl gadarnhaol i'r pwnc 'hinsawdd a natur' gan gyrff cyhoeddus.
    - Nododd BGC Sir Benfro fod strategaeth ymaddasu i newid hinsawdd ar waith, ond nad oedd llawer o adnoddau i ymgymryd ag un arall yn y dyfodol.
    - Byddai Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i ystyried hinsawdd a natur yn flaenoriaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith.
- O dan y pennawd 'iechyd a llesiant', roedd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn datgan eu bod yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddod yn 'genedl Marmot' ac y byddai'n gweithio gyda hi i ddatblygu'r dull hwn.
    - Roedd BGC Sir Benfro eisoes yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd a model cymdeithasol iechyd.
    - Roedd gan Sir Benfro ymateb mwy cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant o'i gymharu â chyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru.
- Roedd diffyg ymwybyddiaeth gan rai cyrff cyhoeddus ynghylch 'diwylliant a'r Gymraeg'.
    - Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio i wella mynediad at ddiwylliant a threftadaeth.
    - Nid oedd BGC Sir Benfro wedi llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd. Gallai Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol weithio gyda'r BGC i gefnogi hyn.
- O dan yr 'economi llesiant', dangosodd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus ymrwymiad da i gyflawni achrediad y cyflog byw gwirioneddol.
    - Ni wnaeth BGC Sir Benfro unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r economi llesiant.
- O dan y pennawd 'bwyd', nodwyd bod y system bresennol yn anghynaliadwy. Roedd rhai BGCau yn datblygu strategaeth fwyd ac yn edrych am gyfleoedd i gydweithio i wella'r system fwyd.
    - Roedd gwaith da yn gysylltiedig â bwyd eisoes yn digwydd yn Sir Benfro. Roedd y BGC yn rhan o waith rhanbarthol dan arweiniad y bwrdd iechyd.

Diolchodd DW i'r BGC am ei gyfraniad at yr adroddiad. Cadarnhaodd MT nad ymatebodd y BGC i rai argymhellion gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn fwy perthnasol i gyrff cyhoeddus unigol.

Gofynnodd CJ a oedd ffordd o gyflwyno data'r adroddiad mewn fformat a oedd yn benodol i Sir Benfro. Byddai hyn yn rhoi gwell syniad i'r BGC o ble yr oedd yn syrthio ar ei hôl hi a sut yr oedd yn alinio ag ardaloedd a setiau data eraill. Cadarnhaodd DW y gallai hyn fod yn bosibl, ond mai dim ond ar lefel genedlaethol yr oedd rhywfaint ar gael. Roedd y data a ddefnyddiwyd yn dod o ffynonellau eraill fel Llywodraeth Cymru, a gallai partneriaid ymchwilio i bob set i weld a oedd wedi'i dadansoddi yn ôl sir. Byddai hwn yn ddarn mawr o waith i'r BGC ymgymryd ag ef ond gallai fod yn ymarfer meincnodi defnyddiol. Ychwanegodd ei bod yn debygol y byddai'r 50 dangosydd cenedlaethol yn cael eu hadolygu yn y flwyddyn nesaf, ac y gallai'r BGC ystyried pa ddangosyddion yr oedd yn teimlo oedd bwysicaf.

Esboniodd TJ mai Sir Benfro oedd yr ardal gyntaf i baratoi asesiad risg ar yr hinsawdd, ond bod yr unigolion a oedd yn gyfrifol bellach wedi symud ymlaen i rolau a sefydliadau gwahanol. O ganlyniad, roedd Sir Benfro bellach yn syrthio ar ei hôl hi ac efallai y byddai'n ei chael hi'n anodd cynhyrchu'r asesiad risg nesaf ar yr hinsawdd yn 2027. Roedd addasu i'r hinsawdd yn faes ffocws eang a allai fod yn anodd i bobl ei ddeall. Nododd TJ fod grwpiau defnyddiol fel Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol yn bodoli, a allai helpu i gefnogi cydweithio a rhannu gwybodaeth yn ehangach. Cadarnhaodd DW y byddai'n mynd â'r mater hwn yn ôl at ei dîm i ystyried sut y gallai Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gefnogi gwaith addasu i'r hinsawdd.

Holodd TJ beth oedd yr economi llesiant yn ei olygu mewn gwirionedd, gan ei bod ymhell o fod yn ddull datblygu economaidd confensiynol. Esboniodd DW ei fod yn ddull damcaniaethol ac ymarferol, oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio detholiad ehangach o fesurau a dangosyddion i werthuso llwyddiant. Roedd yn edrych ar y pethau sylfaenol y mae eu hangen i fyw bywyd da heb gynnal economi sy'n achosi niwed pellach i gymunedau. Roedd yr economi llesiant hefyd yn edrych ar sut i flaenoriaethu a phenderfynu ar gyllid ar gyfer gwahanol fusnesau a diwydiannau sydd angen cymorth. Dywedodd nad oedd y meini prawf cul a ddefnyddiwyd i roi cymorth i fusnesau yn ddigon da mwyach, ac y byddai angen cynnwys busnesau yn yr agenda llesiant. Roedd yr economi llesiant yn annog cyrff cyhoeddus i feddwl am bobl a'r blaned wrth gyflawni polisi economaidd. Ychwanegodd AG fod byrddau iechyd Hywel Dda a Bae Abertawe wedi dechrau cynnal rhywfaint o waith rhanbarthol ynghylch cryfhau'r economi llesiant. Roedd BGCau wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd grwpiau llywio ar gyfer hyn ac roedd croeso i unrhyw gydweithwyr oedd â diddordeb cryf i fod yn bresennol.

Tynnodd AG sylw at y ffaith bod yr amddifadedd gwledig yn y rhanbarth yn ei gwneud hi'n anodd cymharu data lleol â dangosyddion a setiau data cenedlaethol, fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Mae'r data cenedlaethol yn canolbwyntio mwy ar amddifadedd dwysedd uchel, wedi'i grynhoi, yn hytrach nag ar amddifadedd gwledig wedi'i ddosbarthu dros ardal ehangach. Mae hyn yn golygu bod cymunedau gwledig fel Sir Benfro yn aml yn colli allan ar gymorth ac ymyrraeth genedlaethol. Nododd AG ei bod wedi dadlau'n gryf dros ddewis un o awdurdodau lleol y rhanbarth i gymryd rhan mewn cynllun peilot ar gyfer dull Marmot, ond ni lwyddodd hyn. Holodd sut y gellid gwneud gwaith yn well ar lefel genedlaethol i gydnabod a mynd i'r afael â phroblem amddifadedd gwledig mewn siroedd fel Sir Benfro. Cydnabu DW ei fod yn broblem a dywedodd y byddai'n mynd â hyn yn ôl at Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'w ystyried. Cytunodd fod angen cydnabod ystadegau gwledig wrth adolygu'r dangosyddion cenedlaethol, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr â grwpiau ymchwil gwledig fel bod newid polisi yn dechrau ymgorffori'r dimensiwn gwledig.

Dywedodd JB fod gwahanol ffurfweddau rhanbarthol (e.e. etholaethau gwleidyddol, ardal y bwrdd iechyd, ardal y cyd-bwyllgor corfforedig) yn creu heriau ychwanegol ar gyfer casglu data a chyllido. Mae'r ffurfweddau hyn yn ei gwneud hi'n anodd cyfyngu ar setiau data sy'n benodol ac yn berthnasol i'r ardal leol. Ychwanegodd JB fod Sir Benfro wedi cael ychydig iawn o arian o'i chymharu ag ardaloedd eraill o dan gronfa Balchder Bro, oherwydd y math o

ddata a ddefnyddir i gyfrifo lefel y cymorth sydd ei hangen. Tynnodd sylw at y ffaith bod gan Sir Benfro fentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a gwasanaethau rheng flaen cryf eisoes a all wneud mwy, ond bod angen buddsoddiad ac adnoddau pellach ar y rhain. Cydnabu DW y gall nifer y ffurfweddau a'r partneriaethau rhanbarthol gymhlethu prosesau a bod angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r broblem hon. Fodd bynnag, rhoddir rhywfaint o ryddid i gyrff cyhoeddus greu eu partneriaethau eu hunain a gallant helpu i symleiddio'r broses drwy uno neu symleiddio partneriaethau a grwpiau presennol. Ychwanegodd ei bod yn ddiddorol bod BGC Sir Benfro wedi dewis peidio ag uno â Cheredigion a Sir Gaerfyrddin mewn bwrdd rhanbarthol. Cadarnhaodd JB fod y BGC wedi penderfynu aros yn annibynnol oherwydd cryfder y gwaith partneriaeth sydd eisoes ar waith yn Sir Benfro. Mae gwaith y BGC yn cael ei werthfawrogi a'i drysori mewn cymunedau lleol, a gallai hyn fod wedi cael ei golli o roi pwyslais rhanbarthol ehangach.

Dywedodd WB fod teimlad cryf bod y ddeinameg bresennol yn Sir Benfro yn allweddol i gyflawni llwyddiant, er ei bod yn anghyfleus i bartneriaid rhanbarthol fod yn bresennol mewn cyfarfodydd sawl BGC. Mewn lleoliad rhanbarthol, mae perygl y gellid gor-symleiddio mecanweithiau dadansoddi a chyflenwi. Mae pwyslais lleol yn fwy priodol yn Sir Benfro gan ei bod mewn lleoliad gwledig, ac o'r herwydd mae heriau unigryw fel tlodi gwledig, anawsterau wrth gadw a recriwtio staff, gostyngiad ym mhoblogaeth pobl ifanc, a chynnydd sylweddol mewn poblogaeth hŷn. Mae'r problemau hyn yn arwain at weithlu llai, ac at ddeinameg gymdeithasol ac economaidd wahanol i weddill y wlad. Mynegodd WB fod angen i'r llywodraeth genedlaethol gydnabod y gwahaniaethau hyn a'u hystyried yn eu fformiwla darparu adnoddau. Cytunodd MT, gan dynnu sylw at y ffaith bod Sir Benfro wedi cael ei heffeithio'n fawr gan gyfnodau o ansefydlogrwydd economaidd a achoswyd gan argyfyngau ariannol, Brexit a COVID-19. Yn benodol, nid oes cymaint o fynd a dod drwy'r ddau borthladd yn Sir Benfro bellach ag yr oedd cyn Brexit. Cydnabu fod angen gwneud mwy o waith ochr yn ochr â'r Comisiynydd Pobl Hŷn i fynd i'r afael â'r newid yn y gymuned leol a'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i gefnogi poblogaeth hŷn. Esboniodd DW ei fod yn cefnogi penderfyniad Sir Benfro i aros yn BGC annibynnol ac y byddai'n cyflwyno pryderon ynghylch gwybodaeth ddemograffig yn ôl i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'w hystyried. Ategodd fod gormod o strwythurau partneriaeth ar waith o hyd ac y gallai fod angen newidiadau yn y dyfodol i symleiddio partneriaethau fel y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, sydd islaw lefel y BGC.

Ychwanegodd AG nad yw poblogaeth sy'n heneiddio o reidrwydd yn gysylltiedig ag iechyd gwael, a bod hyn yn aml yn cael ei bennu'n economaidd-gymdeithasol. Mae angen mwy o waith yn y maes gwirfoddoli i gefnogi iechyd da, a dyma un o themâu allweddol model cymdeithasol iechyd a llesiant. Awgrymodd MT y gellid ystyried hyn fel rhan o'r asesiad llesiant.

Tynnodd MT sylw at y ffaith bod dal angen trafodaethau pellach gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch bwyd a chreu lleoedd. Byddai DW yn gofyn i'w dîm gysylltu ag LR i hwyluso sgyrsiau pellach.

7. Gohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth BGC Ceredigion

Yr hydref diwethaf, ystyriodd Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yr opsiynau posibl ar gyfer uno'r tri BGC yn y rhanbarth. Penderfynodd Sir Benfro gefnogi datblygiad strwythur cydweithredol rhwng y tri BGC, megis grŵp cydlynu strategol (Opsiwn 3b). Penderfynodd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion symud ymlaen i uno'n ffurfiol (Opsiwn 4). Yn dilyn hyn, cyfarfu MT â chadeiryddion y BGCau eraill i drafod y canlyniad, a chafwyd trafodaethau cadarnhaol ynghylch sut y gallai partneriaid gydweithio ar draws y rhanbarth.

Ym mis Rhagfyr 2025, anfonodd Ceredigion e-bost at bartneriaid y BGC ledled y rhanbarth yn amlinellu eu penderfyniad i symud ymlaen ag uniad ffurfiol â Sir Gaerfyrddin, gyda'r opsiwn i BGC Sir Benfro ailystyried yn ddiweddarach. Esboniodd MT y byddai'n ymateb i'r e-bost, gan ddatgan y byddai Sir Benfro yn dal i hoffi archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Pwysleisiodd na fyddai'n briodol ailagor y sgwrs ynghylch uno ffurfiol, gan fod BGC Sir Benfro wedi cytuno'n gryf y dylid cadw pwyslais lleol.

8. Unrhyw fater arall

Dywedodd LR fod cydweithwyr wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn y sesiwn plannu coed nesaf, fel rhan o'r fenter i blannu coeden ar gyfer pob plentyn a aned yn Sir Benfro. Byddai LR yn dosbarthu mwy o wybodaeth i bartneriaid.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Dosbarthu gwahoddiad i'r sesiwn plannu coed i bartneriaid (LR)

Nododd LR y byddai cyfarfod y BGC ym mis Mai 2026 yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn PLANED yn Arberth. Byddai'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn bresennol.

Dywedodd NE fod cydweithwyr yn y BGC wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol mewn gweithdy rhanbarthol ar wydnwch bwyd, fel y trafodwyd yng nghyfarfod y BGC ym mis Rhagfyr 2025. Gofynnodd NE i gynifer o bobl â phosibl fynd i'r sesiwn hon er mwyn cynrychioli safbwynt Sir Benfro. Ychwanegodd AG fod y gweithdy hwn ar 4 Mawrth yn ymwneud â'r dull system gyfan o ymdrin â phwysau iach, gan ganolbwyntio ar y system fwyd.

Esboniodd CG mai dyma oedd ei chyfarfod olaf o'r BGC fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, ond y byddai'n bresennol yn yr Uwchgynhadledd Trechu Tlodi oedd ar ddod. Byddai cynrychiolydd newydd Llywodraeth Cymru i'r BGC yn cael ei gadarnhau maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.12pm.

Cofnod o'r camau gweithredu

Rhif	Tud.	Cam gweithredu	Dyddiad targed	Perchennog	Datrysiad
1	5	Gwirio gyda chydweithwyr yn y bwrdd iechyd i weld a ydyn nhw wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	Erbyn y cyfarfod nesaf	SI/AG	WEDI'I GWBLHAU
2	9	Anfon gwahoddiad i bartneriaid i'r sesiwn plannu coed	Cyn gynted â phosib	LR	WEDI'I GWBLHAU